## Cyflwyniad

Mae'r Project Ysgolion Heddychlon wedi bod yn cael ei gyflwyno yn llwyddiannus mewn llawer o ysgolion cynradd yng ngogledd Powys, gogledd Ceredigion a de Gwynedd.

Mae'n ymateb i'r diwylliant o drais a gelyniaeth sydd yn ein cymdeithas. Ein gweledigaeth yw creu awyrgylch mewn ysgolion, lle mae disgyblion yn trin ei gilydd â pharch, yn cydweithio a dysgu sgiliau i ddatrys problemau mewn ffordd adeiladol. Wrth wneud hyn byddwn yn dylanwadu ar newid o'r gwaelod i fyny.

Gwneir llawer o'r gwaith yn ystod 'amser cylch' gan ddefnyddio cymysgedd o drafodaethau, gwaith pâr, gemau, straeon a drama. Rydym yn defnyddio amser tawel a chyflwyno ymarferion anadlu gan gynnig sgiliau i'r disgyblion ar sut i ddelio a straen ei hunain.

Mae Project Ysgolion Heddychlon yn fenter gan Gwrdd Grynwyr Canolbarth Cymru a mae'n seiliedig ar egwyddorion y Crynwyr, cydraddoldeb, heddwch, gwirionedd a chyfiawnder. Fodd bynnag, mae'r rhaglen yn seciwlar wrth natur heb unrhyw gynnwys crefyddol.

Mae yna 2 raglen: Addysg Heddwch ac Hyfforddiant Cyfryngu Cyfoedion.

## Addysg Heddwch

Mae'n raglen 6 awr a gyflwynir mewn sesiynau o 1 awr dros 6 wythnos, neu fel rhaglen ddwys am wythnos. Mae'r sesiynau'n dilyn meysydd y cwricwlwm ABCh a'r Cwricwlwm i Gymru. Maent yn cynnwys:

- Archwilio heddwch o fewn ein hunain
- Ffyrdd diogel o fynegi dicter ag emosiynau anodd eraill
- Annog empathi a sgiliau gwrando da
- Datrys gwrthdaro a chyfryngu cyfoedion
- Archwilio themâu ymfudo, lloches ac iawnderau dynol

## Hyfforddiant Cyfryngu Cyfoedion

Mae'r rhaglen hon wedi'i ddatblygu o'n profiad ar ôl cyflawni'r rhaglenni addysg heddwch blaenorol. Mae'n rhaglen 9 awr i blant hŷn y cynradd a gyflwynir mewn sesiynau 1½ awr dros 6 diwrnod. Fe gynigir hyfforddiant manwl ar sut i ddelio a datrys, yn hyderus, gyda'r ffraeo a'r gwrthdaro sy'n digwydd o fewn ysgolion. Mae'n rhaglen flaengar ble gwelir y disgyblion yn cymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am gyfryngu o fewn cymuned yr ysgol.

Mae'r ddwy raglen wedi cael derbyniad da gan yr ysgolion ac arolygaeth Estyn.

## Gwirfoddolwyr

Mae'r rhaglenni yn cael eu chefnogi gan wirfoddolwyr sydd ag ystod eang o sgiliau a phrofiad proffesiynol.

Mae rhai yn dod o gefndir addysg gyda chymwysterau addysgol, cynradd, uwchradd, addysg oedolion ag ysgolion Sul. Mae eraill yn dod o'r gwasanaethau gofal plant, gweithio gydag ysgolion, grwpiau ar ôl ysgol neu grwpiau cymunedol. Fodd bynnag, y prif gymhwyster yw teimlo empathi â phlant a chredu yng ngwerth ein rhaglenni.

## Dod yn Wirfoddolwr

Rhaid i holl ddarpar wirfoddolwyr:

- Gwblhau ffurflen gais fer anffurfiol
- Gynnig 2 eirda
- Sicrhau gwiriad gan yr heddlu a delir gan y project. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol i'n holl staff a'r gwirfoddolwyr.

Yn gyfnewid am hyn, mae'r holl wirfoddolwyr yn derbyn hyfforddiant cymwys, cymorth barhaus a gallant hawlio am gostau teithio.